

# Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon

## Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22

### Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwybodaeth am y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad sy'n cael ei asesu

Beth sy'n cael ei asesu?	<input type="checkbox"/>	Swyddogaeth
	<input type="checkbox"/>	Polisi
	<input checked="" type="checkbox"/>	Prosiect
	<input type="checkbox"/>	Penderfyniad
Teitl y swyddogaeth, polisi, prosiect neu benderfyniad	Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22	
Beth yw nod y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn?	Mae'r adroddiad yn cyflwyno ein gwaith yn ystod 2021/22. Mae'n un o'r prif ffyrdd y mae'r Senedd yn ein dal i gyfrif. Mae hefyd yn un o'r prif sianeli a ddefnyddiwn i roi cyhoedduswydd i'n gwaith yn fwy cyffredinol.	
Ar bwy mae'r swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn effeithio?	Ein cynulleidfa: Aelodau'r Senedd, y cyhoedd (gan gynnwys achwynwyr blaenorol neu ddarpar achwynwyr a darpar ymgeiswyr am swyddi), y wasg, cyrff perthnasol, ymchwilwyr a allai fod â diddordeb yn ein gwaith,	
Gyda phwy y dylid ymgynghori ynghylch y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn?	Y Tîm Rheoli Panel Cyngori OGCC	
Pwy sy'n cynnal yr asesiad effaith hwn?	Ania Rolewska (Pennaeth Polisi, Cyfathrebu a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)	
	Dyddiad: 11/07/2022	Fersiwn: 1.0

#### Sgrinio cychwynnol

Cwestiwn	Y	N	Os yw'r ateb yn 'YDY', eglurwch pam yn gryno
A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n swyddogaethau neu	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Fel un o'n cyhoeddiadau uchaf eu proffil yn ystod y flwyddyn, mae hwn yn brosiect cyfathrebu mawr. Er nad yw AEG ein

feysydd gwaith o fewn y swyddogaethau hynny y mae'r AEG wedi nodi effeithiau ar gydraddoldeb ar eu cyfer?			swyddogaeth gyfathrebu wedi cael ei gwblhau eto, rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o agweddau ar ein gwaith cyfathrebu yn cael effaith ar gydraddoldeb.
A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ydy, i'r graddau y mae'r amcanion hyn yn cynnwys rhoi sylw i hygyrchedd ein gwasanaeth a sut rydym yn hyrwyddo ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol drwy ein gwaith gwella.
A oes risg y gallai'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn roi unrhyw grŵp o bobl dan anfantais?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ydy, gan ei bod yn bosibl na fydd y cyhoeddiad yn hygyrch i bob cynulleidfa.

Os ydych chi wedi ateb 'ydy/oes' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, ewch ymlaen i'r asesiad effaith llawn.

## Asesiad o Effaith

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?  Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
Ystyriaethau trawsbynciol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd yr Adroddiad yn egluro ein gwaith mewn perthynas â chydarddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ddigonol.	Mae'r Adroddiad yn cymryd y camau canlynol i bwysleisio'r gwaith hwn yn ddigonol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae EDI yn un o'n 'negeseuon allweddol' ac yn un o adrannau allweddol yr Adroddiad yn y Crynodeb Gweithredol a'r fformat fideo.</li> <li>Mae'r Adroddiad yn egluro'r hyn a wnaethom yn ystod y flwyddyn i fod mor hygyrch â phosibl, gan dynnu sylw at ein cyhoeddiadau fel y Llyfr Achosion Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac mae'n pwysleisio ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel cyflogwr.</li> </ul>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd y delweddau a ddefnyddir yn yr Adroddiad yn cyfleu sut rydym yn croesawu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn OGCC.	Lle roeddem wedi defnyddio delweddau o bobl yn yr Adroddiad, roeddem wedi gofalu ein bod yn dewis delweddau amrywiol. Fodd bynnag, mae ein gallu i bortreadu amrywiaeth eang o nodweddion cydraddoldeb wedi'i gyfyngu gan nifer y delweddau yn yr Adroddiad yn ogystal ag argaeledd delweddau addas yn ein gwasanaeth delweddau stoc (Shutterstock).	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd fformat yr Adroddiad yn hygyrch i bawb	Cyhoeddir yr Adroddiad yn y fformatau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad llawn (PDF)</li> <li>Crynodeb Gweithredol <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ PDF</li> <li>➤ Fideo</li> </ul> </li> </ul>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?  Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
					<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Hawdd ei Ddarllen</li> <li>➤ HTML</li> </ul> <p>Bydd y fersiynau PDF yn cael nod tudalen ac yn cael eu tagio i helpu defnyddwyr sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol. Bydd testun ALT yn cael ei ychwanegu at bob delwedd. Ni fu'n bosibl cynhyrchu PDF cwbl hygrych gan nad yw lliwiau ein brand i gyd yn hygrych ar hyn o bryd. Cymerwyd gofal i gyfyngu ar y defnydd o liw glas tywyll corfforaethol (ddim yn hygrych).</p> <p>Bydd yr adroddiad llawn yn datgan yn glir y gellir gofyn am y cyhoeddiad mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print bras, copi caled a Braille.</p>			
Oedran	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd y cyhoeddiad yn hygrych i ddefnyddwyr hŷn, a allai ffafrio fformatau ar wahân i ddiigidol.	Mae'r Adroddiad Blynyddol yn datgan yn glir y gellir gofyn am y cyhoeddiad mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print bras a chopi caled.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd pobl hŷn yn ymgysylltu â'r cyhoeddiad hwn. Er bod ein hymchwil ymwybyddiaeth yn dangos bod pobl hŷn yn fwy ymwybodol ohonon ni nag ymatebydd cyffredin, mae pobl dros 65 oed yn cael eu tangynrychioli ymysg ein hachwynwyr.	Fel rhan o'n cynllun dosbarthu, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad drwy rannu'r Adroddiad mewn fformatau gwahanol gydag Age Cymru a gofyn iddo ddosbarthu'r Adroddiad gan ddefnyddio ei rwydweithiau. Ar hyn o bryd, mae ein hadnoddau'n cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith allgymorth wedi'i dargedu mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?  Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd pobl iau (o dan 25 oed) yn ymgysylltu â'r cyhoeddiad hwn. Er bod ymwybyddiaeth o'n swyddfa wedi gwella ychydig ymysg y grŵp demograffig hwn ers 2020, gwyddom fod y ddemograffeg hon yn dal i gael ei thangynrychioli'n sylweddol ymysg ein hachwynwyr.	Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gynhyrchu ar ffurf fideo, a dylai apelio mwy at gynulleidfaoedd iau. Bydd y fideo'n cael ei ddsbarthu drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.  Fel rhan o'n cynllun dosbarthu, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad drwy rannu'r Adroddiad a'r fideo gyda sefydliadau fel Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru. Ar hyn o bryd, mae ein hadnoddau'n cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith allgymorth wedi'i dargedu mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd y cyhoeddiad yn hygyrch i bobl anabl, gan gynnwys y rheini sydd wedi colli eu golwg ac sydd ag anableddau dysgu.	Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gynhyrchu mewn fformat fideo a Hawdd ei Ddarllen. Bydd yr adroddiad llawn yn datgan yn glir y gellir gofyn am y cyhoeddiad mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print bras, copi caled a Braille.  Bydd hyn yn lliniaru'r risg y bydd pobl anabl yn cael trafferth cael gafael ar y cyhoeddiad.  Gellir dehongli'r fideo am yr adroddiad yn Iaith Arwyddion Prydain hefyd. Yn anffodus, nid oedd adnoddau'n caniatáu inni ddatblygu'r fformat hwnnw ochr yn ochr â fformatau eraill. Yn dibynnu ar gapasiti,	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?  Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
					gallwn geisio darparu trawsgrifiad Iaith Arwyddion Prydain o rannau o fideo'r Adroddiad Blynyddol yn nes ymlaen yn y flwyddyn.			
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae'n ymddangos yn eithaf tebygol y bydd pobl anabl yn ymgysylltu â'r cyhoeddiad hwn. Mae pobl anabl yn cael eu cynrychioli'n dda ymysg ein hachwynwyr, ac roedd ein hymchwil ymwybyddiaeth yn dangos bod y ddemograffeg honno'n fwy ymwybodol ohonom nag ymatebydd cyffredin.	Fel rhan o'n cynllun dosbarthu, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad drwy ei rannu ag Anabledd Cymru, Anabledd Dysgu Cymru a sefydliadau eraill sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i bobl anabl, a gofyn iddynt ddsbarthu'r cyhoeddiad gan ddefnyddio eu rhwydweithiau. Ar hyn o bryd, mae ein hadnoddau'n cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith allgymorth wedi'i dargedu mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Rhywedd (rhyw)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mae'r Adroddiad yn cynnig cyfle i dynnu sylw at y gwaith a wneir yn OGCC i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau.	Mae'r Adroddiad yn pwysleisio'r gwaith hwn drwy dynnu sylw at ein gwaith gyda Chwarae Teg ac esbonio newidiadau yn ein ffigurau bwlich cyflog rhwng y rhywiau.  Fel rhan o'n cynllun dosbarthu, byddwn yn gofyn i Chwarae Teg a Triniaeth Deg i Fenywod Cymru rannu'r Adroddiad yn ei fformatau gwahanol drwy ei rwydweithiau.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Ailbennu rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd pobl sy'n ystyried eu hunain yn drawsrywiol yn ymgysylltu â'r cyhoeddiad hwn. Nid ydym yn mesur ymwybyddiaeth o'n swyddfa ymysg y grŵp cydraddoldeb hwn. Fodd bynnag, rydym yn gwybod mai dim ond cyfran fach iawn o'n hachwynwyr sy'n	Fel rhan o'n cynllun dosbarthu, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad drwy ei rannu â Stonewall a gofyn iddo ddsbarthu'r cyhoeddiad gan ddefnyddio ei rwydweithiau.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?  Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
				ystyried eu hunain yn draws, a bod cyfran fawr iawn o bobl wedi dewis peidio ag ateb y cwestiwn am eu hunaniaeth o ran rhywedd, gan gyfeirio at faterion sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth.	Ar hyn o bryd, mae ein hadnoddau'n cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith allgymorth wedi'i dargedu mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn.			
Priodas a phartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ni chanfu'r asesiad unrhyw effaith benodol o ganlyniad i'r prosiect hwn ar y grŵp cydraddoldeb hwn.	Amh	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Beichiogrwydd a mamolaeth	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ni chanfu'r asesiad unrhyw effaith benodol o ganlyniad i'r prosiect hwn ar y grŵp cydraddoldeb hwn.	Amh	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hil	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd y cyhoeddiad yn hygyrch i bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol. Mae ein data'n dangos nad yw'r cymunedau hynny'n ymgysylltu llawer â'n swyddfa a bod ymwybyddiaeth o'r swyddfa ymysg y cymunedau hynny wedi gostwng rhwng 2020 a 2022.	Fel rhan o'n cynllun dosbarthu, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad drwy ei rannu â'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuentid, Cydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf a Race Council Cymru, a gofyn iddynt ddosbarthu'r cyhoeddiad gan ddefnyddio eu rhwydweithiau.  Ar hyn o bryd, mae ein hadnoddau'n cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith allgymorth wedi'i dargedu mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Crefydd neu gred	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd pobl sy'n dilyn crefyddau amrywiol yn ymgysylltu â'r cyhoeddiad hwn. Mae ein data'n dangos nad yw'r cymunedau hynny'n ymgysylltu llawer â'n swyddfa.	Fel rhan o'n cynllun dosbarthu, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad drwy ei rannu gyda Cytun a gofyn iddo ddosbarthu'r cyhoeddiad gan ddefnyddio ei rhwydweithiau.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?  Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
Cyfeiriadedd rhywiol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid ydym yn mesur ymwybyddiaeth o'n swyddfa ymysg y grŵp cydraddoldeb hwn. Ar sail ein gwaith monitro cydraddoldeb, gwyddom fod y grŵp cydraddoldeb hwn yn cael ei gynrychioli'n eithaf da ymysg ein hachwynwyr. Fodd bynnag, dewisodd cyfran fawr iawn o bobl beidio ag ateb y cwestiwn am eu cyfeiriadedd rhywiol, gan gyfeirio at faterion yn ymwneud ag ymddiriedaeth. Mae perygl na fydd pobl sy'n ystyried eu hunain yn hoyw, yn lesbiad, yn ddeurywiol neu arall yn ymgysylltu â'r cyhoeddiad hwn.	Fel rhan o'n cynllun dosbarthu, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad drwy ei rannu gyda Stonewall a gofyn iddo ddosbarthu'r cyhoeddiad gan ddefnyddio ei rwydweithiau.  Ar hyn o bryd, mae ein hadnoddau'n cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith allgymorth wedi'i dargedu mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Y Gymraeg	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd y cyhoeddiad yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg.	Bydd yr Adroddiad Blynyddol ym mhob fformat yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd fideo'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei isdeitlo yn Gymraeg. Bydd datganiad i'r wasg am yr Adroddiad yn cael ei rannu â'n cysylltiadau yn y cyfryngau Cymraeg a bydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gyfer cyfweiliadau.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nodweddion economaidd-gymdeithasol  • natur wledig	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae risg na fydd y cyhoeddiad ar gael yn rhwydd i bobl heb fynediad at fand eang da, a allai atal llwytho'r Adroddiad i lawr mewn fformatau PDF a/neu ffrydio fideo'r Adroddiad Blynyddol.	Cymerwyd gofal i gynhyrchu'r PDFs gydag ansawdd gywasgedig. Mae hyn yn golygu bod y ffeil yn ddigon bach i'w hanfon fel atodiad e-bost a dylai'n hawdd ei llwytho i lawr a'i hagor ar y rhan fwyaf o gyfrifiaduron.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>



Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?  Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
<ul style="list-style-type: none"> <li>incwm isel/dim incwm</li> <li>dyletswyddau gofalu</li> </ul>				Y cyflymder rhynggrwyd gorau ar gyfer ffrydio 4K yw o leiaf 25 Mbps. Yn ôl data Ofcom, mae gan y mwyafrif helaeth o gartrefi yng Nghymru fand eang 'derbyniol'. Fodd bynnag, mae cymunedau gwledig yn dal i wynebu problemau.	Yn anffodus, ni welwn ar hyn o bryd unrhyw ffordd y gallwn lliniaru problemau y gallai pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig eu hwynebu wrth gael gafael ar ein cynnwys fideo. Y gobaith yw y bydd fformatau eraill o'r cyhoeddiad yn lliniaru'r anfantais honno.			

## Cofnodwch y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i asesu effaith:

### Proffil achwynwyr OGCC

2018/19	2021/22	2022/23 Ch1	Sylwadau
<p>Oedran</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dan 25 – 4%</li> <li>• dros 65 – 13%</li> </ul>	<p>Oedran</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dan 25 – 2.8%</li> <li>• dros 65 – 14.4%</li> </ul>	<p>Oedran</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dan 25 – 2.5%</li> <li>• dros 65 – 13%</li> </ul>	<p>Nid yw cynrychiolaeth pobl ifanc (2.5%) a phobl dros 65 (13%) yn cyfateb i broffil demograffig Cymru.</p>
<p>Hunaniaeth traws</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ie – 2%</li> <li>• DPD - 14%</li> </ul>	<p>Hunaniaeth traws</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ie – 1.5%</li> <li>• DPD - 9.2%</li> </ul>	<p>Hunaniaeth traws</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ie – 3%</li> <li>• DPD - 13%</li> </ul>	<p>Cynyddodd cyfran y bobl yr ymddengys eu bod yn ystyried eu hunain yn draws o 1.5% i 3%. Fodd bynnag, mae'r gyfradd uchel o beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn yn dangos diffyg ymddiriedaeth y mae angen inni fynd i'r afael ag ef.</p>
<p>Cenedligrwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddim yn Gymreig, Seisnig, Albanaid na Phrydeinig - 3%</li> <li>• DPD - 5% DPD</li> </ul>	<p>Cenedligrwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddim yn Gymreig, Seisnig, Albanaid na Phrydeinig - 2.7%</li> <li>• DPD - 8%</li> </ul>	<p>Cenedligrwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddim yn Gymreig, Seisnig, Albanaid na Phrydeinig - 1.25%</li> <li>• DPD - 12%</li> </ul>	<p>Mae cynrychiolaeth pobl o wahanol wledydd wedi gostwng i 1.25%, y gyfran isaf yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Nid yw'n cyfateb i broffil demograffig Cymru. Noder gyfradd ymateb uchel iawn 'dewis peidio dweud' i'r cwestiwn hwn.</p>
<p>Ethnigrwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cefndiroedd ethnig amrywiol - 5%</li> <li>• DPD - 3%</li> </ul>	<p>Ethnigrwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cefndiroedd ethnig amrywiol - 4.3%</li> <li>• DPD - 6.7%</li> </ul>	<p>Ethnigrwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cefndiroedd ethnig amrywiol - 2%</li> <li>• DPD - 9%</li> </ul>	<p>Gostyngodd cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol o'i gymharu â 2021/22 (o 4.3% a 2%) ac mae bellach yn is o lawer na phroffil demograffig Cymru. Noder gyfradd ymateb uchel iawn 'dewis peidio dweud' i'r cwestiwn hwn.</p>
<p>Iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymraeg – 5%</li> <li>• arall - 1%</li> </ul>	<p>Iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymraeg – 4%</li> <li>• arall - 1.3%</li> </ul>	<p>Iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymraeg – 3%</li> <li>• arall - 1.5%</li> </ul>	<p>Mae cyfran y bobl sy'n dweud mai Cymraeg yw iaith gyntaf eu cartref yn is o lawer na'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn hwn yn ddiffygiol gan nad Cymraeg yw iaith gyntaf llawer o siaradwyr Cymraeg. Mae cynrychiolaeth defnyddwyr ieithoedd eraill yn dal yn isel iawn.</p>
<p>Anabledd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ie – 23%</li> <li>• yn cyfyngu'n fawr neu ychydig – 36%</li> </ul>	<p>Anabledd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ie – 25%</li> <li>• yn cyfyngu'n fawr neu ychydig – 37%</li> </ul>	<p>Anabledd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ie – 28%</li> </ul>	<p>Roedd cyfran ein hachwynwyr a nododd eu bod yn anabl wedi codi o'i gymharu â 2021/22 (o 25% i 28%) ac mae bellach yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru o 28% (Ystadegau Cymru 2020). Roedd cyfran y bobl a ddywedodd eu bod yn cael eu cyfyngu'n fawr neu ychydig</p>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22

			oherwydd problem iechyd neu anabledd yn uwch eto (38%)
Cyfeiriadedd rhywiol <ul style="list-style-type: none"> <li>• hoyw/lesbiaidd /deurywiol arall 4%</li> <li>• DPD - 10%</li> </ul>	Cyfeiriadedd rhywiol <ul style="list-style-type: none"> <li>• hoyw/lesbiaidd/ deurywiol arall - 5.8%</li> <li>• DPD - 15%</li> </ul>	Cyfeiriadedd rhywiol <ul style="list-style-type: none"> <li>• hoyw/lesbiaidd/ deurywiol arall - 6%</li> <li>• DPD - 17%</li> </ul>	Roedd cyfran y bobl a nododd eu bod yn hoyw, yn lesbiaidd, yn ddeurywiol neu arall yn unol â 2021/22 ac yn uwch na'r amcangyfrifon gofalus o gyfran y grŵp hwn o fewn poblogaeth Cymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd yn is na'r amcangyfrifon eraill sydd ar gael o'r boblogaeth LGB+ yn y DU (10%) (YouGov 2019). Noder gyfradd ymateb uchel iawn 'dewis peidio dweud' i'r cwestiwn hwn.
Crefydd <ul style="list-style-type: none"> <li>• crefyddau eraill (nid Cristnogaeth) – 6%</li> <li>• DPD - 9%</li> </ul>	Crefydd <ul style="list-style-type: none"> <li>• crefyddau eraill (nid Cristnogaeth) – 6.6%</li> <li>• DPD -</li> </ul>	Crefydd <ul style="list-style-type: none"> <li>• crefyddau eraill (nid Cristnogaeth) – 3%</li> <li>• DPD - 19%</li> </ul>	Roedd cyfran y bobl a ddilynai crefyddau ar wahân i Cristnogaeth wedi gostwng o'i gymharu â 2021/22 (o 6.6.% i 3.1%). Roedd hyn yn is na chyfran y grŵp hwn ym mhoblogaeth Cymru yn gyffredinol. Noder gyfradd ymateb uchel iawn 'dewis peidio dweud' i'r cwestiwn hwn.
Statws gwaith <ul style="list-style-type: none"> <li>• fel arall ddim mewn gwaith cyflogedig - 14%</li> <li>• DPD - 11%</li> </ul>	Statws gwaith <ul style="list-style-type: none"> <li>• fel arall ddim mewn gwaith cyflogedig - 16%</li> <li>• DPD - 12%</li> </ul>		

## Ymwybyddiaeth o OGCC (2022)

Yn anffodus, mae ymwybyddiaeth o'n swyddfa wedi gostwng 5% ers 2020, o 48% i 43%. Serch hynny, mae lefel yr ymwybyddiaeth yn dal yn sylweddol uwch nag yn 2012 (35%).

Roedd pobl yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol ohonom os oeddent:

- dros 55 49%
- yn anabl (49%)
- yn Siaradwyr Cymraeg (48%)
- o Ganolbarth a De Cymru (48%); neu
- mewn rolau rheoli uwch/canolraddol, gweinyddol/proffesiynol, neu rolau goruchwylio neu glercyddol, rheoli iau, gweinyddol/proffesiynol (48%).

Yn gadarnhaol, mae ymwybyddiaeth o'n swyddfa wedi cynyddu 4% ymysg pobl 16-34 oed (30% yn 2022 o'i gymharu â 26% yn 2020), er bod y grŵp hwn yn dal ymysg y rhai lleiaf ymwybodol ohonom.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22

Yn bryderus, roedd ymwybyddiaeth o'n swyddfa wedi gostwng 21% ymysg pobl a nododd eu bod yn BAME (24% yn 2022 o'i gymharu â 45% yn 2020).

O'r rhai a glywodd amdanom, dysgodd y rhan fwyaf ohonynt am y swyddfa drwy dafod leferydd (28%) neu drwy waith (17%).

### Data mynediad i'r rhyngryd (Cymru)

Yn ôl [Ofcom](#),

- Mae 90% o Gymru yn gallu cael darpariaeth 4G ddaearyddol dda gan o leiaf un o'r gweithredwyr symudol ac mae gan 61% ddarpariaeth gan y pedwar gweithredwr.
- Mae gan 96% o adeiladau yng Nghymru fynediad at gysylltiad band eang derbyniol o gysylltiad sefydlog

Mae cysylltedd yn dal yn wael yn rhai o'r ardaloedd anodd iawn eu cyrraedd yng Nghymru

### Cofnodwch unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd

Cynigiodd y Tîm Rheoli adborth ar yr Adroddiad Blynyddol ar 2 achlysur. Cafodd wybod am y rhwystrau sy'n ein hatal rhag cynhyrchu PDF cwbl hygyrch. Ni chafodd unrhyw adborth penodol ar hygyrchedd ei rannu.

Cynigiodd y Panel Cyngori adborth ar yr Adroddiad Blynyddol llawn (heb ei fformatio). Mae adborth ar fersiwn sydd wedi'i ddylunio'n llawn a'r Adroddiad mewn fformatau gwahanol yn yr arfaeth.

### Adroddiad canlyniadau

<b>Cam Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'i gwblhau</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	Sgrinio cychwynnol
	<input checked="" type="checkbox"/>	Asesiad llawn
<b>Crynodeb o'r effeithiau negyddol a nodwyd</b>	Dim camau negyddol ar ôl camau gweithredu	
<b>Penderfyniad</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bwrw ymlaen – dim newidiadau
	<input type="checkbox"/>	Bwrw ymlaen – angen gweithredu
	<input type="checkbox"/>	Peidio â bwrw ymlaen
<b>Cynllun Gweithredu</b>	Yn dibynnu ar gapasiti, ceisio darparu trawsgrifiad laith Arwyddion Prydain o rannau o fideo'r Adroddiad Blynyddol yn nes ymlaen yn y flwyddyn.	
	<b>Awdurdodwyd gan</b>  <b>MT</b>	<b>Dyddiad</b>  <b>11/07/2022</b>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22